Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO a gynhaliwyd o bell drwy fideo-gynadledda ddydd Llun, 17 Ionawr 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Elizabeth Evans (Cadeirydd), y Cynghorwyr Peter Davies MBE, Keith Evans a Rowland Rees-Evans, a'r Athro Ian Roffe

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Ellen ap Gwynn, Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd a Ray Quant (Aelodau o'r Cabinet), a'r Cynghorwyr Ceredig Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason, Lynford Thomas a Wyn Thomas

Swyddogion yn bresennol: Mr Eifion Evans, Prif Weithredwr; Mr Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol; Mr Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio; Miss Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd; Ms Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a Swyddog Monitro; Mrs Alex Jenkins, Rheolwr Corfforaethol –Archwilio Mewnol; Mrs Julie Brown;
Ms Hannah Rees – Swyddog Llywodraethu; Mr Alan Davies, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cynllunio; Mrs Sarah Groves-Phillips; Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

Archwilio Cymru: Ms Non Jenkins, Rheolwr Archwilio a Ms Bethan Hopkins, Uwch-archwilydd.

1 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Matthew Woolfall-Jones a Gareth Davies am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

2 **Materion Personol**
Estynnwyd y cydymdeimlad dwysaf â'r Cynghorydd Gareth Davies a'i deulu ar golli eu mab.

3 **Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Roedd y Cynghorydd Rowland Rees-Evans wedi derbyn gollyngiad i siarad yn unig ar eitem 4, Adroddiad ar Adolygiad Archwilio Cymru o Wasanaeth Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion 2020-21.

Roedd y Cynghorydd Peter Davies MBE wedi derbyn gollyngiad i siarad yn unig ar eitem 4, Adroddiad ar Adolygiad Archwilio Cymru o Wasanaeth Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion 2020-21.

4 **Adroddiad ar Adolygiad Archwilio Cymru o Wasanaeth Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion 2020-21**
Rhoddwyd ystyriaeth i Adroddiad Archwilio Cymru ar yr Adolygiad o Wasanaeth Cynllunio'r Cyngor o fis Ebrill i Orffennaf 2021. Bu i Ms Non Jenkins, Rheolwr Archwilio a Ms Bethan Hopkins, Uwch-archwilydd gyflwyno'r adroddiad a'r argymhellion yn fras, er mwyn cael adborth yr Aelodau.

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu, y Cynghorydd Lynford Thomas farn y Pwyllgor ynghylch canfyddiadau'r adroddiad a mynegodd ei siom nad oedd y farn a fynegwyd yn y cyfarfod rhwng Archwilio Cymru a'r Cynghorwyr wedi ei chynnwys yn yr adroddiad. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Archwilio fod y pwyntiau wedi cael eu casglu ynghyd a'u bod wedi'u cynnwys yng nghyd-destun yr adroddiad. Awgrymwyd y dylai'r pwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd Thomas gael eu hanfon at y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Economi ac Adfywio i'w trafod gydag Archwilio Cymru er mwyn cael ymateb llawn i bob pwynt. Wedyn, eu dosbarthu i'r holl Aelodau a'r swyddogion perthnasol.

Holodd a mynegodd Aelodau eraill y Pwyllgor am yr adroddiad a'i gynnwys, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynaliadwyedd a natur wledig y sir. Pwysleisiwyd bod angen mecanwaith fel bod yr adroddiadau a gyflwynir i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn dangos yn well y cyswllt gyda'r Strategaeth Gorfforaethol a dogfennau strategol allweddol eraill.

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Economi ac Adfywio ymateb rheolwyr y Cyngor yn fanwl a phwysleisiodd mor bwysig oedd gwaith ac ymrwymiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd cyn i adroddiad Archwilio Cymru gael ei gyhoeddi, a bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud.

Rhoddodd cadeirydd y grŵp Gorchwyl a Gorffen, y Cynghorydd Rhodri Evans, grynodeb o waith y grŵp a'r materion a drafodwyd. Adroddodd ar y broses 'cnoi cil' sydd wedi'i sefydlu i ystyried ymhellach y pwyntiau a godir gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu cyn bod y Grŵp yn gwneud argymhelliad er mwyn i'r Pwyllgor ei ystyried. Nodwyd bod y broses hon wedi gweithio'n dda iawn hyd yma.

Nododd y Cadeirydd waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan groesawu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn a nodi fod trywydd clir ar gyfer mynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad.

Yn dilyn cwestiwn o'r llawr, CYTUNWYD:

(i) i nodi cynnwys Adolygiad Archwilio Cymru o Wasanaeth Cynllunio'r Cyngor 2020-21 a'r 10 argymhelliad a ddarparwyd;
(ii) i nodi Ymateb Rheolwyr y Cyngor a'r Cynllun Gweithredu;
(iii) bod y Pwyllgor y cael y wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfod mis Mawrth er mwyn hysbysu'r weinyddiaeth newydd ym mis Mai am y sefyllfa bresennol ynghylch argymhellion yr adroddiad.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2022

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____